| Ymyrraeth | Cynnig Casnewydd | | | Gwyrdd | Cynnydd ar hyn o bryd ar darged |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ambr | Cynnydd y tu ôl i'r targed, ond yn dal yn gyraeddadwy |
| Yn Arwain | Sheila Davies | Cyfnod Adrodd | Chwarter 2 2019-20 | Coch | Cynnydd ymhell y tu ôl i'r targed |

## Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

| |
|---|
| Aeth gwefan cyrchfannau newydd ar gyfer y ddinas yn fyw, gan hyrwyddo Casnewydd ar gyfer busnes, twristiaeth a chynadleddau/cyfarfodydd. |
| Projectau adfywio yn mynd rhagddynt yn dda: Mae'r ailddatblygiad gwesty'r Chartist ar y trywydd iawn i agor yn gynnar yn 2020. Bydd y cyfadeilad pobl hŷn ar 123-129 Commercial Street hefyd yn cael ei gwblhau ar ddyddiad tebyg. Mae'r ailddatblygiad o'r hen adeilad IAC ar Mill St fel gofod swyddfa safon uchel wedi cychwyn. |
| Mae datblygu cynllun rheoli cyrchfannau drafft yn mynd yn ei flaen gyda digwyddiad ymgynghori ar gyfer ystod eang o randdeiliaid i gyfrannu at y cynllun. Mae'r cynllun yn ceisio tyfu economi ymwelwyr Casnewydd a gwella canfyddiadau o'r ddinas. |
| Cynhaliwyd y Sblash Mawr a Gemau Trawsblannu Prydain ym mis Gorffennaf. Yn dilyn Gemau Trawsblannu Prydain, mae Casnewydd wedi derbyn statws Dinas Rhoddwyr. |
| Cafodd aelodaeth y Bwrdd ei ad-drefnu i gynyddu cyfranogiad y cyhoedd. Cynrychiolaeth wedi'i sicrhau o wahanol grwpiau oedran, busnesau, siaradwyr Cymraeg a'r gymuned pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r grŵp ehangach ym mis Medi. |
| Nododd Cyd-arolygiad Canol y Ddinas gan bartneriaid faterion y dylid mynd i'r afael â hwy fel rhan o weithgaredd Canol y Ddinas Ddiogelach. Cynhaliwyd diwrnod hwyl i'r teulu i hyrwyddo'r defnydd o St Paul's Walk fel lle i gynnal digwyddiadau. |

| Prif risgiau / Rhwystrau i gynnydd | Statws (U/C/I) | Camau Lliniaru / Y cymorth sydd ei angen |
|---|---|---|
| Methiant i gytuno ar weledigaeth a rennir ar gyfer Casnewydd / cydlynu gweithgareddau | Canolig | Trafodaethau parhaus rhwng arweinwyr, RhEC a DMG |
| Methiant i greu argraff gadarnhaol i ymwelwyr â'r ddinas | Isel | Partneriaid yn cydweithio i sicrhau amgylchedd diogel, glân a chroesawgar |

| Mesurau Perfformiad Allweddol | Targed | Gwir | CAG |
|---|---|---|---|
| Canran y bobl sy'n dweud bod Casnewydd yn lle da i fyw (Wi-Fi'r Bysiau) | Dros 45% | 52% | Gwyrdd |
| Canran y bobl sy'n dweud bod Casnewydd yn dod yn lle gwell i fyw (Wi-Fi'r Bysiau) | Dros 49% | 49% | Gwyrdd |
| Canran y bobl sy'n falch o ddweud eu bod yn dod o Gasnewydd (Wi-Fi'r Bysiau) | Dros 45% | 48% | Gwyrdd |
| Economi'r Ymwelwyr | £396.53 miliwn | Ffigwr diwedd y flwyddyn | |
| Nifer yr ymwelwyr | 4.78 miliwn | Ffigwr diwedd y flwyddyn | |
| Nifer yr ymweliadau â'r wefan Cyrchfannau | I'w gadarnhau | | |

## Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol

| |
|---|
| Project i adnewyddu Arcêd y Farchnad i barhau ym mis Ionawr 2020. |
| Cynnal arolwg o Aelodau'r BGC ar eu defnydd o ynni carbon isel. |
| Gŵyl Fwyd Casnewydd i'w chynnal ym mis Hydref 2019. |
| Sefydlu Is-grŵp Statws Dinas Rhoddwyr i fwrw ymlaen ag etifeddiaeth y Gemau Trawsblannu Prydain. |
| Pleidlais yn yr Hydref i benderfynu ar barhad yr Ardal Gwella Busnes. |